

Serameg Canolradd



Yn gwyno

Mae hwn yn gwrs a addysgir sy'n hwyl ac yn greadigol gan gynnig cyfle i archwilio, datblygu, dylunio, addurno a chreu amrywiaeth o ddarnau seramig.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

- ...Rhywun â diddordeb brwd ym maes seramig
- ... Rhywun ar lefel ganolradd
- ... Rhywun â phrofiad sy'n dymuno ehangu ei sgiliau.

Cynnwys y cwrs

Bob wythnos, cewch gyfle i ehangu eich profiad o waith seramig trwy roi cynnig ar ystod o dechnegau megis adeiladu â llaw, Technegau Addurniadol, mowldio gwasg a thechnegau gwydro. Byddwch chi'n datblygu eich sgiliau trwy arddangosiadau a chyfarwyddiadau. Ar ôl



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

cwblhau'r cwrs hwn, byddwch chi wedi dysgu amrywiaeth o sgiliau y gallwch chi eu datblygu ac adeiladu arnynt. Hefyd, bydd gennych chi gasgliad o ddarnau ar gyfer eich portffolio a gallwch chi fynd â nhw adref gyda chi.

Erbyn diwedd y cwrs, dylech chi deimlo'n fwy hyderus a dylech chi allu defnyddio'r technegau a ddysgwyd yn ystod y cwrs i symud eich diddordeb ym maes seramig yn ei flaen.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Ysgol y Celfyddydau Creadigol yn cynnig ystod o gyrsiau drwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol ar hyn o bryd:

- Tecstiliau
- Seramig
- Creu printiadau
- Ffotograffiaeth
- Argraffu 3D
- Llesiant Creadigol ac Ymarfer y Celfyddydau
- Sgiliau DJ gan ddefnyddio Ableton Live
- Y Celfyddydau Perfformio
- Canu Er Mwynhâd
- Ysgrifennu Creadigol
- Uwchgylchu Celfi a Chrefft

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

- Creu Gemwaith
- Darlunio Digidol gan ddefnyddio Procreate
- Lansio Menter/Busnes Creadigol

Darperir yr holl gyfarpar yn ystod y cwrs hwn.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

